

Ddydd Mercher, 23 Hydref 2024, gwnaethom groesawu aelodau'r Bwrdd Seinio i'r ymgynghoriad hybrid blynyddol, gyda'r aelodau'n ymuno â ni yng Nghanolfan Iechyd Genomig Cymru / Wales Genomic Health Centre ac ar-lein. Roedd ychydig o oedi cyn dechrau ar y cyfarfod, oherwydd problemau TG yn CIGC ond daethom o hyd i ateb a oedd yn golygu y gallai'r diwrnod barhau.

Yn dilyn croeso Nick, cychwynnodd Sarah a Guy y diwrnod gyda diweddariad byr gan Fyrddau PGC a dau weithgaredd i'r aelodau gymryd rhan ynddynt – mwy isod.

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn ymwneud â chysyniad i ddefnyddio data genomeg ar gyfer ymchwil, ac yna trafodaeth am stondin gynhadledd PGC, ac roedd ymgynghoriad terfynol y dydd yn ymwneud â'r Strategaeth Ymchwil Genomig.

Diweddariadau a gweithgareddau Bwrdd PGC

Arweinydd y Sesiwn: Sarah Milosevic, Guy Watson (Bwrdd Seinio PGC)

Recordiad y cyflwyniad: <https://www.youtube.com/watch?v=KiQksaz6Cko&list=PL3mAssKK-PKN7d44zU9zGn6i7-VoCu1b8&index=4>

Rhannodd Sarah a Guy uchafbwyntiau'r Byrddau PGC, gan gynnwys:

- Mynediad ymchwil i ddata clinigol genomeg
- Mynd i'r afael â chanser
- Cynllun Gweithlu Genomig
- Strategaeth Ymchwil Genomig
- Cyllid Parc Geneteg Cymru

Gofynnwyd cwestiwn am flaenoriaethu gwasanaethau canser yr ysgyfaint yng Nghymru dros ganser y fron neu ganser y coluddyn, lle mae llwybrau sgrinio mwy sefydledig eisoes yn bodoli. Esboniodd Michaela fod canser yr ysgyfaint yn flaenoriaeth i Gymru oherwydd canlyniadau cleifion ac effaith sylweddol cyffuriau, triniaeth a diagnosis cynnar ar ddisgwyliad oes cleifion canser yr ysgyfaint.

Yn ogystal â'u diweddariadau, roedd gan Sarah a Guy ddau weithgaredd ar gyfer y Bwrdd Seinio. Y gweithgaredd cyntaf oedd i aelodau rannu eu gobeithion, eu hofnau a'u cymhellion am genomeg yn ddienw, y mae Sarah a Guy yn bwriadu eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Rhaglen PGC. Yr ail weithgaredd oedd i'r aelodau gwblhau dau gwis acronym, ag atebion doniol, gyda gwobrau yn cael eu dyfarnu am yr ymatebion gorau.

Ymgynghoriad 2 – Cydsynio i ddefnyddio data genomeg mewn ymchwil

Arweinydd y Sesiwn: Rhys Vaughan, Rheolwr Caniatâd PGC (Parc Geneteg Cymru) a Liz Merrifield Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Ymchwil (Prifysgol Caerdydd)

Recordiad y cyflwyniad: <https://www.youtube.com/watch?v=PBjb8hi5Cfw&list=PL3mAssKK-PKN7d44zU9zGn6i7-VoCu1b8&index=3>

Amlinellodd Liz fanc data Cymru a'i rôl mewn cydymffurfiaeth a llywodraethu, a chyflwynodd Rhys ddull Cymru o ymchwilio i fynediad at ddata clinigol. Esboniodd Rhys fod gan setiau data mawr, a ddisgrifir yn dda, y pŵer i wella ymchwil genomeg ac mae'n rhaid dadansoddi llawer o genomau i dynnu sylw at newidiadau genomau ar yr un pryd. Cynigiwyd Banc Data Genomig Cymru Gyfan i

ganiatáu i ymchwilwyr gael mynediad at ddata genomeg lle mae'r claf wedi rhoi caniatâd i'w ddata gael ei gynnwys yn y banc data.

Mae'r cynnig cychwynnol ar gyfer data gan 100 o gleifion sy'n cyd-fynd â meini prawf penodol megis mynychu clinigau penodol, eisoes wedi cael profion genomeg, profion geneteg triawd (lle mae genom y claf yn cael ei gymharu â rhai ei rieni biolegol fel rhan o'r broses ddiagnostig), ac nad ydynt wedi derbyn diagnosis. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei gynnig fel rhan o ofal clinigol arferol yn y dyfodol.

Codwyd cwestiwn am ganfyddiadau'n cael eu bwydo'n ôl i gleifion, ac amlinellodd Rhys y camau ar gyfer casglu data a rhoi adborth ar ddata. Codwyd cwestiwn pellach am brofion genomeg ar gyfer plant mabwysiedig ac eglurodd Rhys, oherwydd y gofyniad am brofion triawd, efallai na fydd yn bosib cynnwys y rheini sydd wedi eu mabwysiadu yn y 100 claf cyntaf a ddewiswyd at ddefnydd ymchwil, fodd bynnag, nid yw hynny'n eu heithrio rhag profion geneteg.

Pwysleisiwyd hefyd nad gofal clinigol yw prif ddiben y banc data ar hyn o bryd ond ymchwil, ac y bydd ymchwil yn helpu canlyniadau cleifion yn y dyfodol.

Yna aeth yr aelodau i'w grwpiau trafod i drafod agweddau penodol ar gydsyniad a mynediad at ddata cleifion.

Grŵp Trafod 1: *Sut mae cleifion yn teimlo am ddull traddodiadol o gael mynediad at ddata (h.y. copïo a throsglwyddo data dilyniannu) yn erbyn dulliau newydd o gael mynediad at ddata (h.y. Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy [AYD])?*

- Nodwyd bod gan fynediad at ddata ffisegol a digidol broblemau gwahanol, ond maent yr un mor abl i arwain at fynediad diawdurdod at ddata. Gallai gwaith papur ffisegol gael ei adael allan a'i weld gan rywun a gallai data ar-lein/digidol gael ei hacio
- Holwyd sut y byddai data genomeg yn cael ei rannu o'i gymharu â data ieuchyd eraill a'r gost o weithredu AYD
- Mae gwybodaeth am sut mae gwybodaeth adnabod cleifion yn cael ei thynnu o'r data genomeg, yn gryno ac yn glir
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn y grŵp yn hapus gyda data yn cael ei gasglu oherwydd bod ganddynt brofiad o wybodaeth arall, mwy personol, yn cael ei chasglu
- Beth yw'r cynlluniau hirdymor ar gyfer y data? A fydd ymchwil a gofal ieuchyd yn dod yn agosach at ei gilydd?
- Y manteision canfyddedig o wneud gwybodaeth yn hygyrch i ymchwilwyr oedd cynyddu dealltwriaeth o glefydau a mwy o opsiynau triniaeth yn dod ar gael
- Codwyd pryderon am gost y prosiect, storio'r data yn ddiogel, a dewis y claf i fod yn rhan o waith ymchwil yn cael ei gynnal. Mynegwyd pryderon hefyd am y posibilrwydd y bydd cwmnïau'n cyrchu'r data a goblygiadau hynny
- Ystyriwyd bod dull hybrid o'r dulliau traddodiadol a newydd o gael mynediad at ddata yn gadarnhaol, er bod yr aelodau'n ail-bwysleisio'r angen am fesurau diogelwch i sicrhau diogelwch y data
- Mae tryloywder o ran nodau ac allbynnau'r ymchwil yn allweddol a gall gynyddu ymddiriedaeth a pharodrwydd y cyhoedd i gymryd rhan

Grŵp Trafod 2: *A yw'r daflen wybodaeth yn disgrifio'n glir Banc Data Genomeg Cymru Gyfan a beth mae'n ei olygu i glaf gymryd rhan?*

- Mae'r ffurflen gydsynio wedi'i gwella ers yr adolygiad diwethaf, fodd bynnag, mae rhai pwyntiau i'w hegluro/gwella o hyd (cafodd y manylion penodol eu cofnodi)
- Trafododd y grŵp dderbyn adborth o'r ymchwil, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw pobl efallai eisiau gwybod, a gofynnwyd a ellid cynnwys hyn yn y ffurflen gydsynio. Eglurodd Rhys, nad oes opsiwn i gleifion dderbyn adborth na diweddariadau o'r ymchwil ar hyn o bryd, ond gellid cyflwyno hyn yn y dyfodol
- Mae angen ystyried darparu ar gyfer cleifion nad ydynt efallai'n gallu darllen neu ysgrifennu

Grŵp Trafod 3: *Beth yw barn cleifion ar wahanol agweddau ar fynediad ymchwilwyr at ddata cleifion?*

- Dylai fod gan y rheini sy'n defnyddio data cleifion nodau moesegol, e.e. elusennau fel Macmillan, y GIG, a'r byd academiaidd. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn fwy cadarnhaol na chwmnïau fferyllol, cwmnïau yswiriant, yn enwedig pe bai'r cwmnïau hyn yn gallu elwa o'r ymchwil. Nodwyd nad yw'r GIG yn datblygu cyffuriau na thriniaethau
- Holodd y grŵp a yw therapïau yn cael eu preifateiddio o ganlyniad i'r mynediad data, a nododd ei bod yn bwysig bod y GIG yn elwa o ganlyniadau ymchwil
- Trafodwyd cydsyniad graddedig, ac awgrymwyd y gellid cynnwys cwestiwn am rannu wybodaeth â chwmnïau, gan ei gwneud yn glir y gellid defnyddio'r wybodaeth ar gyfer creu elw. Nodwyd hefyd y gallai geiriad fod yn bwysig, a gall gwahaniaethu rhwng elw a buddsoddiadau newid barn cleifion ar rannu mynediad at ddata
- Awgrymwyd cydsyniad haenog i adlewyrchu a lliniaru pryderon cleifion
- Mae'n bwysig gwybod pwy sy'n cyrchu'r data a pham, ac awgrymwyd y gallai mynediad academiaidd fod am ddim ond gellid codi tâl ar gwmni preifat sy'n ceisio gwneud elw am fynediad
- Y gobeithion a'r pryderon ar gyfer defnyddio'r banc data oedd y byddai o fudd i gleifion ac yn cefnogi canfod ac atal afiechydon yn gynnar, ond roedd ymchwil marchnata ac ymchwil wedi'i dargedu yn parhau i fod yn bryder

Grŵp Trafod 4: *Sut mae darpar gyfranogwyr yn teimlo am y gwahanol fathau o ganlyniadau y gellid eu dychwelyd trwy ymchwil?*

- Dylid rhannu canfyddiadau perthnasol â chleifion gan mai po gynharaf y bydd ganddynt yr wybodaeth, y cynharaf y gallant weithredu. Nodwyd y dylid rhannu canfyddiadau perthnasol â gwybodaeth am y camau nesaf y gall y claf eu cymryd, a phobl neu sefydliadau y gall y claf estyn allan atynt am gymorth
- Dylid rhannu canfyddiadau damweiniol â chleifion, fel eu bod yn cael gwybod, a gallent fod yn bwysig i'r claf yn ddiweddarach mewn bywyd. Nodwyd y byddai peidio rhannu canfyddiadau yn siomedig
- Awgrymwyd y gallu i'r claf ddewis pa ganfyddiadau yr oedd am dderbyn a pheidio â'u derbyn
- Wrth rannu gwybodaeth â chleifion, dylid addasu jargon meddygol a'i wneud yn hygyrch i'r person llyeg. Awgrymwyd hefyd y gellid hidlo'r canlyniadau, gan ddangos canfyddiadau perthnasol a damweiniol a pha mor debygol y byddai'r canfyddiadau'n effeithio ar rywun dros amser, e.e. misoedd a blynyddoedd

- Roedd yr Aelodau'n hapus â'r llwybr arfaethedig, ar yr amod bod popeth yn cael ei wneud yn yr amgylchedd cywir, gyda'r bobl gywir, a bod canlyniadau'n cael eu rhannu â'r claf yn briodol er mwyn peidio â'i orlethu
- Mynegwyd pryderon am gwmnïau masnachol/trydydd parti yn cyrchu gwybodaeth. Eglurodd Rhys fod angen cymeradwyaeth foesebol ar rannu data, a bod nifer o fframweithiau llywodraethu a rheoli data ar waith i gynnal diogelwch data
- Teimlai'r grŵp y dylid bwydo gwybodaeth fel risg uwch i glefydau (sydd ag ymyriadau) yn ôl o leiaf, ac na ddylai'r pwysau sy'n wynebu'r GIG fod yn rheswm dros beidio â datgelu canfyddiadau i gleifion

Trafodaeth – Stondin Gynhadledd PGC

Arweinwyr y Sesiwn: Rhian Morgan, Rheolwr Addysg ac Ymgysylltu (Parc Geneteg Cymru) ac Emma Hughes, Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu – Cymru (Genetic Alliance UK/ Parc Geneteg Cymru)

Recordiad y cyflwyniad: https://www.youtube.com/watch?v=vfat2_Ym9x4&list=PL3mAssKK-PKN7d44zU9zGn6i7-VoCu1b8&index=1

Trwy gydol y dydd, cafodd aelodau'r Bwrdd Seinio gyfle i weld a rhyngweithio â stondin gynhadledd PGC a osodwyd fel y byddai ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys gwybodaeth am bartneriaid a gweithgareddau fel y clustffonau realiti rhithwir.

Amlinellodd Rhian ac Emma y pedwar prif randdeiliad ar gyfer digwyddiadau fel y Cyhoedd, Ysgolion / Colegau, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ac Ymchwilwyr, a Chleifion a Theuluoedd, a rhoddodd enghreifftiau o weithgareddau ymgysylltu a drefnwyd ar gyfer pob grŵp. Eglurodd Rhian hefyd, fel rhan o'r newid i gyllid ar gyfer Parc Geneteg Cymru, bod cynaliadwyedd a chreu refeniw yn bwysig, ac y byddai'n croesawu adborth a syniadau gan y Bwrdd Seinio.

Roedd y drafodaeth am ymgysylltu yn y dyfodol yn cynnwys:

- Ymestyn digwyddiadau addysg y tu allan i'r gweithlu iechyd i gynnwys ysgolion a/neu'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o genomeg, ac i hyrwyddo genomeg fel gyrfa i ystod eang o bobl, e.e. pobl ifanc, newidwyr gyrfa. Eglurodd Rhian ac Emma eu bod yn gweithio'n agosach gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru o amgylch gweithlu ehangach y GIG. Ychwanegodd Emma eu bod wedi cynnal arolwg barn ar gyfer pobl ifanc ynghylch pa bynciau i'w cynnwys yng Nghaffis Genomeg Pobl Ifanc
- Gwahodd pobl ifanc i fod yn bresennol mewn digwyddiadau fel rhan o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a chynnig digwyddiadau i'r rheini dan 16 / disgyblion oed cynradd
- Ystyried addasu iaith i gynulleidfa – mae "genomeg" yn derm arbenigol ac efallai na fydd pobl yn gwybod beth mae'n ei olygu neu y gallai fod yn rhwystr iddynt
- Defnyddio dylanwadwyr i hyrwyddo genomeg. Eglurodd Rhian nad oes adnoddau yn nhîm Parc Geneteg Cymru i reoli cyfrif cyfryngau cymdeithasol fel TikTok. Awgrymodd yr Aelodau, os nad yw'n bosib defnyddio dylanwadwr go iawn, gellid defnyddio cymeriad rhithwir / cartŵn yn lle hynny
- Digwyddiadau ar gyfer pobl ddi-waith
- Hysbysebu digwyddiadau mewn mannau fel hysbysfyrddau ysbytai, llyfrgelloedd, archfarchnadoedd, mannau chwarae meddal
- Mae angen cadw hygyrchedd mewn cof, canllawiau gweledol/darluniadol

- Adfywio'r rap genomeg
- Cynyddu tryloywder ac argaeledd gwybodaeth mewn ieithoedd eraill. Nododd Rhian fod Parc Geneteg Cymru wedi bod yn bresennol mewn Ffair Iechyd Cymunedau Ethnig Leiafrifol 2024 yn ddiweddar, ond roedd yn cydnabod bod hwn yn faes sydd angen mwy o waith. Mae yna hefyd lwybrau presennol y gellir eu defnyddio megis rhwydweithiau lles, ymuno â digwyddiadau presennol o fewn cymunedau, a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda grwpiau penodol.
- Ehangu cyrhaeddiad i gynnwys y rheini sy'n amheus o genomeg a/neu'r rheini na fyddent fel arfer yn mynd i ffeiriau gwyddoniaeth
- Darparu gwybodaeth am chwalu mythau/targedu camddealltwriaethau ac ofnau am genomeg e.e. dylunio geneteg babanod, ewgeneg

Ymgynghoriad 2 – Strategaeth Ymchwil Genomeg

Arweinydd y Sesiwn: Delyth Morgan, Pennaeth Ymchwil Gwyddorau Bywyd a Phartneriaethau'r Diwydiant (Is-adran Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru)

Recordiad y cyflwyniad: <https://www.youtube.com/watch?v=FylBYi3yZHs&list=PL3mAssKK-PKN7d44zU9zGn6i7-VoCu1b8&index=2>

Darparodd Delyth ddiweddariadau ar ddatblygiad y Strategaeth Ymchwil Genomeg, a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd Seinio am fewnbwn mewn meysydd penodol. Trafododd grwpiau amcanion a chamau gweithredu gwahanol o'r Strategaeth ddrafft, gan ystyried meysydd ffocws a sut y gall llais a chyfranogiad y claf ychwanegu gwerth.

Mae'r sylwadau a gesglir ar gyfer pob amcan a'r camau gweithredu cysylltiedig wedi'u crynhoi isod.

Amcan 1: *Darparu fframwaith sy'n dod â'r byd academiaidd, y GIG a diwydiant ynghyd i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer ymchwil genomeg yng Nghymru.*

CAM GWEITHREDU 1.1: *Trwy bartneriaeth agos rhwng Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a Phartneriaeth Genomeg Cymru, sefydlu safle arweinyddiaeth strategol ar gyfer ymchwil genomeg Cymru.*

CAM GWEITHREDU 1.2: *Adolygu'r strwythur cynghori strategol cyfredol (Grŵp Ymchwil ac Arloesi PGC) i helpu i gefnogi'r arweinydd strategol i ddatblygu ymchwil genomeg yng Nghymru, wrth barhau i gyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion GIG Cymru, ac adeiladu cysylltiadau â mentrau genomeg y DU a byd-eang.*

- Ariannu amser gwarchodedig (e.e. 1 diwrnod yr wythnos) person sy'n berthnasol i'r byd academiaidd, y GIG a'r diwydiant i weithio ar y strategaeth hon – gallai hwn fod yn berson sydd eisoes yn gweithio yn un o'r meysydd hyn. Fel arall, sefydlu pwyllgor o gynrychiolwyr ar draws sectorau gan gynnwys cleifion â phrofiadau byw. Byddai hyn yn caniatáu trafodaeth a gosod amcanion realistig, a byddai llais y claf yn ychwanegu gwiriad realiti
- Byddai'n rhaid ymgorffori unrhyw lais claf yn fwriadol, fel nad yw'n enghraifft o wneud pethau drwy siarad yn unig, a byddai'n rhaid i rywbeth fel bwrdd seinio fod yn ddigon eang i gynrychioli ystod o gleifion. Mae hefyd yn bwysig nodi bod lefelau gwahanol i gyfranogiad cleifion

- Dylai ariannu cyfarfodydd gynnwys pobl sydd â phrofiad byw o'r cyflwr dan sylw – fel arfer, nhw yw'r ymchwilwyr a'r eiriolwyr gorau, a gallant ymateb i unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r mater.
- Rhannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn genomeg â'r cyhoedd, ynghyd â'r effaith gadarnhaol y gall ei chael ar amrywiaeth o gleifion a chyflyrau
- Gellid creu fersiynau gwahanol o'r strategaeth ar gyfer lefelau gwybodaeth a chynulleidfa darged, gan sicrhau bod yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn cael eu diwygio, fel ei bod yn hawdd eu deall
- Nid yw'r gweithredoedd yn glir, ac mae'r geiriad a'r iaith yn arwain yn anfwriadol, sy'n ei gwneud y cynnwys yn anodd ei ddehongli
- Nid yw'n glir a yw 'swydd arweinyddiaeth strategol' yn cyfeirio at rôl benodol, neu a yw hyn yn cyfeirio at safbwynt/sefyllfa e.e. mae Cymru yn arweinydd/hyrwyddwr/dylanwadwr strategol ym maes Genomeg. Os nad yw hyn yn cyfeirio at berson penodol, mae hyn eisoes yn bodoli: Parc Geneteg Cymru, PGC, GGFCG. Neu a ddylai fod un corff sy'n cwmparu'r cyfan?
- Mae'n bwysig sefydlu rôl a dylanwad pob corff, e.e. cyllid. Gallai strwythur busnes gefnogi hyn
- Mae geiriad yn awgrymu bod yr arweinydd strategol yn unigolyn
- Os yw'r sefydliad yn wleidyddol annibynnol, a yw amcanion Llywodraeth Cymru yn groes i hyn?

Amcan 3: Tyfu'r gymuned ymchwil genomeg yng Nghymru drwy sefydlu Cymru fel Canolfan ar gyfer Ymchwil Genomeg Cydweithredol a ddiffinnir drwy gydweithio, cyd-greu a chyd-gyflawni.

CAM GWEITHREDU 3.2 Codi ymwybyddiaeth a gwelededd drwy drefnu digwyddiad genomeg cenedlaethol Cymreig, fel yr Ŵyl Genomeg neu Symposiwm Ymchwil Genomeg Lloegr hynod lwyddiannus, gan gynnwys pynciau ymchwil a chynnwys cleifion

CAM GWEITHREDU 3.3 Gwellu Cydweithrediad y Diwydiant i gael mewnwelediadau gwerthfawr, arloesedd, a chyfieithu ymchwil i gymwysiadau ymarferol trwy fentrau fel partneriaethau diwydiant-academia a phrosiectau ymchwil a rennir.

- Nid yw'n glir os mai'r nod yw gwneud hon yn ganolfan Byd-eang/Ewropeaidd neu'n Ganolfan ar gyfer ymchwil y DU yn unig, ac mae angen gwneud y camau gweithredu yn gliriach, gan nad yw'n glir a yw hyn yn ymwneud â chyflawni neu ymgysylltu. Dylid gwneud y prosesau gwerthuso iaith ac effaith hefyd yn gliriach
- Mae rhai pryderon moesegol ynghylch partneriaethau diwydiant-academia a phryderon y bydd canolbwyntio ar gwmnïau er elw yn niweidiol i'r GIG. Mae gwyddoniaeth ddarganfod wedi'i chysylltu â diwydiant, ac mae'n angenrheidiol, ond mae angen ei rheoli'n ofalus
- Mae'n bwysig sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu cynnwys mewn digwyddiadau genomeg yng Nghymru, yn ogystal â chynnwys technegol, ymchwil a gofal iechyd mewn un digwyddiad i ganiatáu cydweithredu amlochrog. Yn ystod y broses gynllunio, byddwch yn glir iawn ynghylch pwy yw'r gynulleidfa darged a beth allai fod o ddiddordeb iddynt, ac yna cynllunio ddigwyddiadau
- Gallai cyfranogiad cleifion â chyfleusterau ymchwil fod yn fuddiol iawn. Gellid cynnwys CCC mewn symposia ymchwil, yn enwedig gan fod mewnbyn cleifion yn tueddu i fynd ar goll yn ystod ymchwil. Byddai mewnbyn CCC i gyfleu canfyddiadau ymchwil hefyd yn fuddiol ac yn

gwneud y canfyddiadau'n fwy hygyrch i bobl nad ydynt yn arbenigwyr, a theimlwyd y byddai cymeradwyaeth y Bwrdd Seinio o'r Strategaeth Ymchwil Genomeg yn briodol

- Cysylltu digwyddiadau genomeg â'r rheini sydd eisoes yn gyfarwydd i bobl y tu allan i genomeg, e.e. yr Eisteddfod
- Codi ymwybyddiaeth drwy rannu straeon cleifion go iawn wrth i bobl gysylltu, a bod eisiau eu helpu pan fyddant yn buddsoddi'n emosiynol mewn rhywbeth. Mae hefyd yn helpu i ddyneddio iaith wyddonol a thechnegol

Amcan 3: Tyfu'r gymuned ymchwil genomeg yng Nghymru drwy sefydlu Cymru fel Canolfan ar gyfer Ymchwil Genomeg Cydweithredol a ddiffinnir drwy gydweithio, cyd-greu a chyd-gyflawni.

CAM GWEITHREDU 3.5: Datblygu a gweithredu Strategaeth Genedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd sy'n cwmpasu nid yn unig Bwrdd Seinio PGC ond hefyd y cyhoedd ehangach, gan sicrhau sgwrs gyhoeddus fwy cynhwysol a helaeth

- Teilwra strategaethau i apelio at y diwydiant a'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar ddiwydiannau ac unigolion perthnasol
- Rhannu'r strategaeth drosfwaol yn is-grwpiau, pob un yn gyfrifol am ddenu'r gynulleidfa gywir
- Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi cyhoeddiadau ymchwil lleol i nodi blaenoriaethau sy'n seiliedig ar gyffredinrwydd ac effaith problemau, gan gynnwys clefydau prin
- Sicrhau bod llais y claf yn cael ei gynnwys, gan gynnal rhyddid mynegiant a safbwyntiau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, LHDTCThA+, a nodweddion gwarchodedig eraill
- Ehangu ymdrechion allgymorth i unigolion y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes yn gyfarwydd â genomeg, symleiddio iaith academiaidd a gwneud y cynnwys yn haws uniaethu ag ef, a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Gallai ffeithluniau fod yn ffordd effeithiol o gyflwyno gwybodaeth gymhleth mewn ffordd hawdd ei deall
- Tynnu sylw at gymwysiadau ymarferol genomeg, fel ffarmagenomeg a Phrofi Cynenedigol Heb Lawdriniaeth, y gallai pobl eisoes fod yn gyfarwydd â nhw
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd grwpiau eang ac amrywiol, yn enwedig unigolion anabl, trwy ymgynghoedd o blatfform i blatfform a hashnodau
- Canolbwyntio ar ddiwrnodau ymwybyddiaeth penodol (e.e. Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd) i gynyddu gwelededd genomeg
- Ymgysylltu enwogion â phroffiliau gwyddonol i gynyddu gwybodaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd â genomeg
- Cynyddu ymwybyddiaeth o fewn ysbytai, ar gyfer staff a chleifion, drwy rannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â genomeg
- Targedu grwpiau a allai fod yn amheus o feddygaeth, ymchwil neu genomeg ar gyfer ymgysylltu ehangach
- Archwilio llwybrau newydd ar gyfer sgwrs gyhoeddus, fel ysgolion a cholegau, i ennyn diddordeb myfyrwyr a rhieni
- Mesur effaith digwyddiadau ymgysylltu drwy gwisiau neu arolygon i asesu cadw gwybodaeth

Y Cyfarfod Nesaf

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar-lein ar gyfer Ymgynghoriad y Gaeaf, ddydd Iau 16 Ionawr 2025.